# NOTICE OF APPOINTMENT OF DATE FOR THE EXERCISE OF ELECTORS' RIGHTS
# Cwmbran Community Council
## Financial year ending 31 March 2019

1. Date of announcement 5 JUNE 2019

2. Each year the annual accounts are audited by the Auditor General for Wales. Prior to this date, any interested person has the opportunity to inspect and make copies of the accounts and all books, deeds, contracts, bills, vouchers and receipts etc. relating to them for 20 working days on reasonable notice. For the year ended 31 March 2019, these documents will be available on reasonable notice on application to:

   DAVID COLLINS
   CLERK TO THE COUNCIL, CWMBRAN COMMUNITY COUNCIL,
   VENTNOR ROAD,
   CWMBRAN NP44 3JY

   between the hours of 8.30am and 4.30pm on Monday to Friday

   commencing on 1 July 2019
   and ending on 26 July 2019

3. From 29 July 2019 until the audit has been completed, Local Government Electors and their representatives also have:

- the right to question the Auditor General about the accounts. The Auditor General can be contacted via BDO LLP, Arcadia House, Maritime Walk, Ocean Village, Southampton SO14 3TL; and
- the right to attend before the Auditor General and make objections to the accounts or any item in them. Written notice of an objection must first be given to the Auditor General via BDO LLP, Arcadia House, Maritime Walk, Ocean Village, Southampton, SO14 3TL. A copy of the written notice must also be given to the council.

4. The audit is being conducted under the provisions of the Public Audit (Wales) Act 2004, the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014 and the Auditor General for Wales' Code of Audit Practice.

## Electors' rights under the Public Audit (Wales) Act 2004

### The basic position

By law any interested person has the right to inspect the council's accounts. If you are entitled and registered to vote in local council elections then you (or your representative) also have the right to ask the Auditor General questions about them, or challenge an item of account contained within them.

### The right to inspect the accounts

When a local government body has finalised its accounts for the previous financial year it must advertise that they are available for people to look at. Having given reasonable notice of your intentions, you then have 20 working days to look through the accounts and supporting documents. You will be able to make copies of the accounts and most of the relevant documents from the body. You will probably have to pay a copying charge.

### The right to ask the auditor questions about the accounts

You can only ask the Auditor General questions about the accounts. The Auditor General does not have to answer questions about the body's policies, finances, procedures or anything else not related to the accounts. Your question must be about the accounts that are subject to audit. The Auditor General does not have to say whether he thinks something the council has done, or an item in its accounts, is lawful or reasonable.

### The right to object to the accounts

If you think that the body has spent money that they shouldn't have, or that someone has caused a loss to the body deliberately or by behaving irresponsibly, you can object to the Auditor General by sending a formal 'notice of objection', which must be in writing to the address below. You must tell the Auditor General why you are objecting. The Auditor General must reach a decision on your objection. If you are not happy with that decision, you can appeal to the courts.

You may also object if you think that there is something in the accounts that the Auditor General should discuss with the council or tell the public about in a 'public interest report'. Again, you must give your reasons in writing to the Auditor General at the address below. In this case, the Auditor General must decide whether to take any action. The Auditor General will normally, but does not have to, give reasons for their decision and you cannot appeal to the courts. You may not use this 'right to object' to make a personal complaint or claim against the body.

If you wish to make a personal complaint or claim, you should take these complaints to your local Citizens' Advice Bureau, local Law Centre or your solicitor. You may also be able to complain to the Public Services Ombudsman for Wales if you believe that a Member of the body has broken the Code of Conduct for Members. The Ombudsman can be contacted at: 1 Old Field Rd, Pencoed, Bridgend CF35 5LJ, (1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ) (tel: (01656) 641 150).

### What else you can do

Instead of objecting, you can give the Auditor General information that is relevant to their responsibilities. For example, you can simply tell the Auditor General if you think that something is wrong with the accounts or about waste and inefficiency in the way the council runs its services. You do not have to follow any set time limits or procedures. The Auditor General does not have to give you a detailed report of their investigation into the issues you have raised, but they will usually tell you the general outcome.

### A final word

Local government bodies, and so local taxpayers, must meet the costs of dealing with questions and objections. When the Auditor General decides whether to take your objection further, one of a series of factors they must take into account includes the costs that will be involved. They will only continue with the objection if it in the public interest to do so. If you appeal to the courts, you might have to pay for the action yourself.

If you wish to contact the Auditor General please write to: BDO LLP, Arcadia House, Maritime Walk, Ocean Village, Southampton, SO14 3TL

# HYSBYSIAD O BENNU DYDDIAD AR GYFER ARFER HAWLIAU ETHOLWYR

## Cyngor Cymuned Cwmbrân

## Y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2019

1. Dyddiad y cyhoeddiad 5 MEHEFIN 2019

2. Bob blwyddyn, mae'r cyfrifon blynyddol yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae gan unrhyw berson sydd â diddordeb gyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau ac ati yn ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Am y flwyddyn sy'n diweddu ar 31 Mawrth 2019, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol drwy wneud cais i:

   DAVID COLLINS
   CLERC I'R CYNGOR, CYNGOR CYMUNED CWMBRÂN
   HEOL VENTNOR
   CWMBRÂN NP44 3JY

   rhwng yr oriau 8.30yb a 4.30yp ar Ddydd Llun i Ddydd Gwener

   gan ddechrau ar 1 Gorffennaf 2019
   a gorffen ar 26 Gorffennaf 2019

3. 29 Gorffennaf 2019 hyd nes bod yr archwiliad wedi'i gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:
   - yr hawl i gwestiynu'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon. Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy BDO LLP, Arcadia House, Maritime Walk, Ocean Village, Southampton SO14 3TL; ac
   - yr hawl i fod yn bresennol gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a gwrthwynebu'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf drwy BDO LLP, Arcadia House, Maritime Walk, Ocean Village, Southampton SO14 3TL. Rhaid rhoi copi o'r hysbysiad ysgrifenedig hefyd i'r cyngor.

4. Mae'r archwiliad yn cael ei gynnal o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Hawliau etholwyr yn ôl Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004**

**Y sefyllfa sylfaenol**
Yn ôl y gyfraith mae gan unrhyw berson sydd â diddordeb yr hawl i archwilio cyfrifon y cyngor. Os oes gennych hawl i bleidleisio mewn etholiadau cyngor lleol ac wedi cofrestru ar gyfer gwneud hynny yna mae gennych chi (neu eich cynrychiolydd) hefyd yr hawl i ofyn cwestiynau amdanynt i'r Archwilydd Cyffredinol, neu herio eitem o gyfrif a gynhwysir ynddynt.

**Yr hawl i archwilio'r cyfrifon**
Pan fydd corff llywodraeth leol wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Ar ôl rhoi hysbysiad rhesymol o'ch bwriadau, bydd gennych wedyn 20 diwrnod gwaith i chwilio drwy'r cyfrifon a dogfennau ategol. Byddwch yn gallu gwneud copïau o'r cyfrifon a'r rhan fwyaf o'r dogfennau perthnasol o'r corff. Mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi dalu am wneud copïau.

**Yr hawl i gwestiynu'r archwilydd cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon**
Dim ond cwestiynau am y cyfrifon y gallwch eu gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol. Nid oes yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ateb cwestiynau am bolisïau, cyllid, gweithdrefnau'r corff neu unrhyw beth arall nad yw'n gysylltiedig â'r cyfrifon. Rhaid i'ch cwestiwn ymwneud â'r cyfrifon sy'n destun archwilio. Nid oes yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddweud a yw'n credu bod rhywbeth y mae'r cyngor wedi'i wneud, neu eitem o'i gyfrifon, yn gyfreithlon neu'n rhesymol.

**Yr hawl i wrthwynebu'r cyfrifon**
Os ydych yn credu bod y corff wedi gwario arian na ddylai fod wedi'i wario, neu fod rhywun wedi achosi colled i'r corff yn fwriadol neu drwy ymddwyn yn anghyfrifol, gallwch wrthwynebu'r Archwilydd Cyffredinol drwy anfon 'hysbysiad o wrthwynebiad' ffurfiol, a rhaid i hyn fod yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod. Rhaid ichi ddweud wrth yr Archwilydd Cyffredinol pam rydych yn gwrthwynebu. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddod i benderfyniad am eich gwrthwynebiad. Os nad ydych yn fodlon ar y penderfyniad hwnnw, gallwch apelio i'r llysoedd.

Gallwch hefyd wrthwynebu os ydych yn credu bod rhywbeth yn y cyfrifon y dylai'r Archwilydd Cyffredinol ei drafod gyda'r cyngor neu ddweud wrth y cyhoedd amdano mewn 'adroddiad er budd y cyhoedd'. Unwaith eto, rhaid ichi roi eich rhesymau yn ysgrifenedig i'r Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad isod. Yn yr achos hwn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol fel arfer, ond does dim rhaid iddo, yn rhoi rhesymau am eu penderfyniad ac ni allwch apelio i'r llysoedd. Ni allwch ddefnyddio'r 'hawl i wrthwynebu' hon i wneud cwyn neu hawliad personol yn erbyn y corff.

Os hoffech wneud cwyn neu hawliad personol, dylech fynd â'r cwynion hyn i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth lleol, Canolfan Leol y Gyfraith neu eich cyfreithiwr. Efallai y byddwch hefyd yn gallu cwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os byddwch yn credu bod Aelod o'r corff wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau. Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon yn: 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5LJ, (ffôn: (01656) 641 150).

**Beth arall allwch chi ei wneud?**
Yn hytrach na gwrthwynebu, gallwch roi'r wybodaeth sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau i'r Archwilydd Cyffredinol. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r Archwilydd Cyffredinol os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r cyngor yn cynnal ei wasanaethau. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi adroddiad manwl ichi ar eu hymchwiliad i'r materion a godwyd gennych, ond byddant fel arfer yn rhoi gwybod i chi beth oedd y canlyniad cyffredinol.

**Gair i gloi**
Rhaid i gyrff llywodraeth leol, ac felly trethdalwyr lleol, dalu am gostau ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau. Pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu a ddylid mynd â'ch gwrthwynebiad ymhellach, mae un o gyfres o ffactorau y mae'n rhaid iddynt eu hystyried yn cynnwys y costau dan sylw. Byddant dim ond yn parhau gyda'r gwrthwynebiad os yw gwneud hynny er budd y cyhoedd. Os byddwch yn apelio i'r llysoedd, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am y gweithredu eich hun.

Os hoffech gysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol ysgrifennwch at: BDO LLP, Arcadia House, Maritime Walk, Ocean Village, Southampton, SO14 3TL